



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Uned 443 - Deall ffactorau sy'n cyfrannu at
angen am ofal a chymorth ar unigolion a/neu
ofalwyr

Unit 443 - Understanding factors that
contribute to individuals and/or carers
needing care and support

**Deilliant Dysgu 9: Deall anaf
caffaeledig i'r ymennydd**

**Learning outcome 9: Understand
acquired brain injury**



Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Consortiwm Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r consortiwm yn cynnwys y partneriaid canlynol:

This resource has been developed in partnership by the Social Services Practitioner (SSP) Consortium on behalf of Social Care Wales. The consortium is made up of the following partners:



Gofal Cymdeithasol Cymru a'i gynghorwyr penodedig sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau hyn. Gall darparwyr dysgu, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gofal yng Nghymru gopïo, atgynhyrchu, dosbarthu neu drefnu bod y Rhaglen Ddysgu Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael fel arall i unrhyw drydydd parti arall ar sail ddrielw yn unig. Rhaid i unrhyw bartïon eraill sy'n dymuno copïo, atgynhyrchu, dosbarthu neu fel arall wneud y Rhaglen Ymarferwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) ar gael i unrhyw drydydd parti arall geisio caniatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw.

The copyright to these materials rests with Social Care Wales and its appointed advisers. The Social Services Practitioner (SSP) Programme of learning may be copied, reproduced, distributed or otherwise made available to any other third party by learning providers, local authorities and care service providers in Wales on a not-for-profit basis only. Any other parties that wish to copy, reproduce, distribute or otherwise make the Social Services Practitioner (SSP) Programme available to any other third party must seek the prior written consent of Social Care Wales.

Sgiliau Astudio / Study Skills



Cyfeirnod / Referencing



Darllen / Reading



Ysgrifenu / Writing



Myfyrdod Beirniadol /
Critical Reflection



Cyfathrebiad /
Communication



Gwaith Grŵp / Group Work



Cyflwyniad / Presentation



Ymchwil / Research



Sgiliau rhyngpersonol /
Interpersonal Skills



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Sgiliau Astudio Cudd / Hidden Study Skills

Peidiwch ag anghofio bod amrywiaeth o sgiliau wedi'u gwreiddio, gan gynnwys...

Trefniadaeth

Cadw amser

Cynllunio

Cymryd nodyn

Cynllunio Traethawd

Gwrandawriad

Datrys problemau

Penderfyniadau

Cwestiynu

Siarad yn effeithiol

Cyfathrebu llafar

Efallai y bydd rhai o'r rhain yn rhan o'ch sgiliau rhyngpersonol hefyd.

Don't forget there are a range of skills embedded including...

Organisation

Time keeping

Planning

Note taking

Essay planning

Listening

Problem solving

Decision making

Questioning

Effective speaking

Verbal communication

Some of these may form part of your Interpersonal Skills too.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Gofal i'w Gymeriadau
Supported by
Wales Government

Meini prawf asesu:
Rydych yn deall:

- 9.1 Mathau ac achosion anaf caffaeledig i'r ymennydd
- 9.2 Effeithiau posibl anaf caffaeledig i'r ymennydd ar unigolyn a'i deulu
- 9.3 Sut y gall diffyg dirnadaeth o ganlyniad i anaf caffaeledig i'r ymennydd effeithio ar allu unigolyn i gymryd risg
- 9.4 Yr ystod o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anaf caffaeledig i'r ymennydd
- 9.5 Modelau a dulliau y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ag unigolion sy'n ag anaf caffaeledig i'r ymennydd

Assessment criteria:
You understand:

- 9.1 Types and causes of acquired brain injury
- 9.2 Potential impacts of acquired brain injury on an individual and their families
- 9.3 How lack of insight resulting from acquired brain injury may impact on an individual's ability to take risk
- 9.4 The range of services, agencies and professionals which provide support for individuals with acquired brain injury
- 9.5 Models and approaches that can be used to support effective communication and engagement with individuals living with acquired brain injury

Anaf i'r ymennydd

Mae anaf i'r ymennydd yn aml yn cael ei ddisgrifio fel anabledd cudd oherwydd diffyg symptomau corfforol allanol. Gall ymddangos nad yw salwch yn effeithio ar berson ag anaf i'r ymennydd ac mae felly'n cael ei drin gan eraill fel person abl.

Oherwydd diffyg symptomau gweladwy, nid yw gofalwyr cleifion ag anafiadau i'r ymennydd bob amser yn ystyried arwyddion eraill o anaf i'r ymennydd megis iselder, blinder, newid archwaeth, problemau cof a chanolbwyntio yn llawn.

Am y rheswm hwn, mae llawer o raglenni ailalluogi yn ceisio cynnwys teulu, ffrindiau a gofalwyr mewn adsefydlu er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r symptomau cudd.

Brain injury

Brain injury is often described as a hidden disability due to the lack of outward physical symptoms. A person with a brain injury may appear to be unaffected by illness and is therefore treated by others as an able-bodied person.

Due to the lack of visible symptoms, other indications of brain injury such as depression, fatigue, altered appetite, memory and concentration problems are not always considered fully by carers of brain injury patients.

For this reason, many reablement programmes try to involve family, friends and carers in rehabilitation to develop an understanding of the hidden symptoms.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Wladfa Gymru
Welsh Government

9.1 Mathau ac achosion anaf caffaeledig i'r ymennydd

Mae'r **cerebrwm** yn delio â datrys problemau, cof, meddwl, emosiynau a rheoli symudiad. Mae hefyd yn rheoli cydsymud a chydbwysedd.

Mae **coesyn yr ymennydd** yn cysylltu â llinyn asgwrn y cefn ac yn rheoli gweithrediadau awtomatig fel treuliad, anadlu, cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed.

Gan fod yr ymennydd yn rheoli holl swyddogaethau'r corff, gall anaf i'r ymennydd effeithio ar:

- **symudiad corfforol**– sut mae'r corff yn gweithio
- **prosesau gwybyddol**– sut mae person yn meddwl, yn dysgu ac yn cofio
- **ymddygiad ac emosiynau**– sut mae person yn ymddwyn ac yn teimlo.

9.1 Types and causes of acquired brain injury

The **cerebrum** deals with problem solving, memory, thinking emotions and control of movement. It also controls coordination and balance.

The **brainstem** connects to the spinal cord and controls automatic functions such as digestion, breathing, heart rate and blood pressure.

As the brain controls all the body's functions, a brain injury can affect:

- **physical movement** – how the body works
- **cognitive processes** – how a person thinks, learns and remembers
- **behaviour and emotions** – how a person acts and feels.

This can have a devastating effect on both the patient and the family carers. Some brain injury patients will recover all their loss of function through intensive reablement programmes, some will be left with impaired function and will need on-going support to live an independent life

9.1 Mathau ac achosion anaf caffaeledig i'r ymennydd

Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd (ABI) yw'r term generig ar gyfer anaf i'r ymennydd a gafwyd ers genedigaeth oherwydd nifer o achosion megis:

Trawma – fel arfer o ganlyniad i ergyd gref i'r pen neu'r corff. Gall gwrthrych sy'n mynd trwy feinwe'r ymennydd, fel bwled neu ddarn o benglog wedi'i chwalu, hefyd achosi anaf trawmatig i'r ymennydd. Gall anaf trawmatig ysgafn i'r ymennydd effeithio ar gelloedd eich ymennydd dros dro. Gall anaf trawmatig mwy difrifol i'r ymennydd arwain at gleisio, meinweoedd yn rhwygo, gwaedu a niwed corfforol arall i'r ymennydd. Gall yr anafiadau hyn arwain at gymhlethdodau hirdymor neu farwolaeth.

9.1 Types and causes of acquired brain injury

Acquired Brain Injury (ABI) is a generic term for a brain injury which has been acquired from birth due to a number of causes such as,

Trauma – is usually a result from a violent blow or jolt to the head or body. An object that goes through brain tissue, such as a bullet or shattered piece of skull, also can cause traumatic brain injury. Mild traumatic brain injury may affect your brain cells temporarily. More-serious traumatic brain injury can result in bruising, torn tissues, bleeding and other physical damage to the brain. These injuries can result in long-term complications or death.

trauma (head injury), tumour, stroke, meningitis, brain haemorrhage, encephalitis, anoxia.

9.1 Mathau ac achosion anaf caffaeledig i'r ymennydd

Tiwmor ar yr ymennydd - mäs annormal sy'n tyfu y tu mewn i'r ymennydd a all fod naill ai'n falaen (niweidiol) neu'n anfalaen (ddim yn niweidiol). Gall y ddau fath o diwmor roi pwysau ar rai rhannau o'r ymennydd wrth iddynt dyfu, er bod tiwmor malaen fel arfer yn tyfu'n gyflymach. Gwneir diagnosis o diwmor ar yr ymennydd trwy sgan MRI neu CT a chynhelir llawdriniaeth o'r enw craniotomi i'w dynnu.

Gwaedlif ar yr ymennydd - gwaedu ar yr ymennydd oherwydd aneurism wedi rhwygo. Gall hyn fod naill ai oherwydd strôc neu ergyd sylweddol i'r pen.

9.1 Types and causes of acquired brain injury

Brain tumour - is an abnormal mass growing inside the brain which can either be malignant (harmful) or benign (non-harmful). Both types of tumours can put pressure on certain areas of the brain as they grow, although a malignant tumour usually grows more quickly. A brain tumour is diagnosed through an MRI or CT scan and an operation called a craniotomy is carried out to remove it.

Brain haemorrhage - is a bleed on the brain due to a ruptured aneurysm. This can either be due to a stroke or a significant blow to the head.

trauma (head injury), tumour, stroke, meningitis, brain haemorrhage, encephalitis, anoxia.

9.1 Mathau ac achosion anaf caffaeledig i'r ymennydd

Strôc - yn gyflwr brys lle mae llif y gwaed i ran o'r ymennydd yn cael ei amharu. Mae dau fath o strôc. Mae strôc isgemig yn cael ei achosi gan glot gwaed sy'n amharu ar lif y gwaed i'r ymennydd. Mae strôc gwaedlif yn digwydd pan fydd pibell waed wan yn byrstio ac yn achosi gwaedu ar yr ymennydd. Yn y ddau achos, mae celloedd yr ymennydd yn dioddef o ddiffyg ocsigen ac yn marw sy'n arwain at anaf i'r ymennydd.

Enseffalitis - llid yn yr ymennydd a achosir gan firws neu facteria sy'n niweidio celloedd nerfol yn yr ymennydd gan arwain at anaf hirdymor i'r ymennydd.

Anocsia - mae diffyg ocsigen i'r ymennydd yn cael ei adnabod fel anocsia ac mae'n ganlyniad i wenwyn carbon monocsid, diffyg haearn (haemoglobin) yn llif y gwaed, asthma, tagu, methiant y galon neu strôc.

9.1 Types and causes of acquired brain injury

Stroke - is an emergency condition wherein blood flow to part of the brain is disrupted. There are two types of stroke. An ischaemic stroke is caused by a blood clot which disrupts blood flow to the brain. A haemorrhagic stroke happens when a weakened blood vessel bursts and causes a bleed on the brain. In both cases, brain cells are starved of oxygen and die which results in brain injury.

Encephalitis - is an inflammation of the brain caused by virus or bacteria which damage nerve cells in the brain leading to long term brain injury.

Anoxia - is a lack of oxygen to the brain is known as anoxia and be a result of carbon monoxide poisoning, lack of iron (haemoglobin) in the blood stream, asthma, choking, heart failure or stroke.

trauma (head injury), tumour, stroke, meningitis, brain haemorrhage, encephalitis, anoxia.

9.2 Effeithiau posibl anaf caffaeledig i'r ymennydd ar unigolyn a'i deulu

Ar ôl anaf i'r ymennydd, gellir amharu ar weithrediad naill ai'n barhaol neu dros dro. Cyfeirir at nam tymor byr weithiau fel cyfergyd a gall achosi cur pen, pendro, blinder, anniddigrwydd a phroblemau cof. Gall anaf difrifol i'r ymennydd achosi problemau mwy pellgyrhaeddol, a gallai rhai ohonynt fod yn gymhleth ac efallai na fyddant yn gwella. Mae'r ffenestr lle mae'r ymennydd yn ailddysgu sgiliau ac yn ailddatblygu llwybrau niwrolol yn gymharol fach a dyna pam mae ailalluogi a chymorth amserol yn hanfodol.

Gwylwch y Fideo - <https://www.youtube.com/watch?v=vvZleKkloAs>

9.2 Potential impacts of acquired brain injury on an individual and their families

After a brain injury, functions can be impaired either permanently or temporarily. Short term impairment is sometimes known as concussion and can cause headaches, dizziness, fatigue, irritability and memory problems. A severe brain injury can cause more far-reaching issues, some of which could be complex and may not improve. The window within which the brain re-learns skills and redevelops neurological pathways is relatively small which is why timely reablement and support is essential.

Watch Video - <https://www.youtube.com/watch?v=vvZleKkloAs>



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Modeli gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

<https://www.youtube.com/watch?v=vvZleKkloAs>

9.2 Effeithiau posibl anaf caffaeledig i'r ymennydd ar unigolyn a'i deulu

Gall ymddangos bod gan glaf ag anaf i'r ymennydd bersonoliaeth wahanol oherwydd pryder, rhwystredigaeth, dicter neu broblemau gwranddo neu ddeall. Mae aelodau'r teulu weithiau'n teimlo bod yr ymddygiadau newydd hyn yn fwriadol ac yn methu â gwneud iawn amdanynt.

Mae rhai cleifion anaf i'r ymennydd yn dioddef o flinder ac yn ei chael hi'n anodd adennill eu sgiliau sgwrsio blaenorol. Gall diffyg tosturi gan eu teulu eu digalonni yn eu hymdrechion i ymgysylltu ag eraill. Yn yr un modd, oherwydd diffyg hunanymwybyddiaeth yn dilyn anaf i'r ymennydd, mae aelodau'r teulu'n adrodd nad yw'r claf yn deall yr anawsterau wrth ofalu amdano.

Mae llawer o ysbytai anaf i'r ymennydd arbenigol yn cynnig cymorth i deuluoedd a gofalwyr yn ogystal â'r claf er mwyn goresgyn y problemau sy'n ymwneud â symptomau cudd.

9.2 Potential impacts of acquired brain injury on an individual and their families

A brain injury patient may appear to have a changed personality due to anxiety, frustration, anger or problems listening or understanding. Family members sometimes feel that these changed behaviours are deliberate and fail to compensate for them.

Some brain injury patients suffer from fatigue and find it difficult to regain their former conversational skills. Lack of compassion from their family can discourage them in their attempts to engage with others. Likewise, due to a lack of self-awareness following a brain injury, family members report that the patient lacks understanding of the difficulties in caring for them.

Many specialist brain injury hospitals offer support for families and carers as well as the patient in order to overcome the issues surrounding hidden symptoms.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Heathu gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

9.2 Effeithiau posibl anaf caffaeledig i'r ymennydd ar unigolyn a'i deulu

Beth yw'r effeithiau posibl eraill ar yr unigolyn a'i deulu?

- Cyflogaeth
- Cyllid
- Hunan adnabod
- Problemau iechyd ychwanegol - corfforol a meddyliol
- Perthnasoedd
- Rhagolygon ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

9.2 Potential impacts of acquired brain injury on an individual and their families

What are the other potential impacts on the individual and their family?

- Employment
- Finances
- Self identification
- Additional health problems –physical and mental
- Relationships
- Future prospects and ambitions

9.3 Sut y gall diffyg dirnadaeth o ganlyniad i anaf caffaeledig i'r ymennydd effeithio ar allu unigolyn i gymryd risg

Dirnadaeth, y cyfeirir ato hefyd fel hunanymwybyddiaeth, yw gallu person i arsylwi a myfyrio ar ei feddyliau a'i weithredoedd ei hun. Mae anafiadau i'r ymennydd, yn enwedig anafiadau i'r llabedau blaen, yn aml yn achosi effaith sylweddol ar y gallu hwn. Gall hyn fod yn broblem arbennig i oroeswyr anaf i'r ymennydd a'u teulu, ffrindiau a gofalwyr.

Gall fod yn ofidus i oroeswyr, oherwydd efallai y byddant yn cael trafferth deall pam mae pobl yn eu rhwystro rhag gwneud rhai pethau.

Gall teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr ei chael yn broblemus ac yn ofidus oherwydd gall y goroeswr anaf i'r ymennydd ymddwyn yn amhriodol heb fod yn ymwybodol bod unrhyw beth o'i le ar ei weithredoedd.

9.3 How lack of insight resulting from acquired brain injury may impact on an individual's ability to take risk

Insight, also referred to as self-awareness, is the ability of a person to observe and reflect on their own thoughts and actions. Brain injuries, especially injuries to the frontal lobes, often cause this ability to be significantly affected. This can be a particular problem for both brain injury survivors and their family, friends and carers.

It can be distressing for survivors, because they may struggle to understand why people are restricting them from doing certain things.

Families, friends and carers can find it problematic and upsetting because the brain injury survivor may behave inappropriately without being aware that there is anything wrong with their actions.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Modur gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

9.3 Sut y gall diffyg dîrnadaeth o ganlyniad i anaf caffaeledig i'r ymennydd effeithio ar allu unigolyn i gymryd risg

Mae'n bwysig bod yn sensitif i unrhyw risgiau neu beryglon y gallai'r goroeswr anaf i'r ymennydd eu gosod eu hunain neu eraill ynddynt o ganlyniad i'w diffyg dîrnadaeth. Er enghraifft, os nad ydynt yn cydnabod bod ganddynt broblem cof, byddwch yn ymwybodol o faterion fel gadael popty heb oruchwyliaeth neu anghofio cloi drysau cyn gadael y tŷ. Neu os nad ydynt yn cydnabod bod eu sgiliau gyrru wedi'u heffeithio, gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb gyrru ar ôl anaf i'r ymennydd.

Fodd bynnag, mae peryglon wrth dybio bod diffyg dîrnadaeth ar gyfer pob penderfyniad, gan ei bod yn bosibl na chaniateir i berson ag anaf i'r ymennydd ddatblygu cyfrifoldeb am ei weithredoedd. Mae dîrnadaeth yn aml yn newid dros amser hefyd; er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl yn dangos llai o dîrnadaeth yn nyddiau cynnar eu hanaf i'r ymennydd, ond yn dod i adennill dîrnadaeth yn ddiweddarach.

(<https://www.headway.org.uk/media/4091/lack-of-insight-after-brain-injury-factsheet.pdf>)

9.3 How lack of insight resulting from acquired brain injury may impact on an individual's ability to take risk

It is important to be sensitive to any risks or dangers that the brain injury survivor may place themselves or others in as a result of their lack of insight. For instance, if they do not recognise that they have a memory problem, be mindful of issues such as leaving a cooker unattended or forgetting to lock doors before they leave the house. Or if they do not recognise that their driving skills are affected, make them aware of the legalities of driving after brain injury.

However, there are dangers in assuming a lack of insight for all decisions, as a person with brain injury may not be allowed to develop responsibility for their actions. Insight commonly changes over time as well; for instance, some people may display reduced insight in the early days of their brain injury but come to regain insight later on.

(<https://www.headway.org.uk/media/4091/lack-of-insight-after-brain-injury-factsheet.pdf>)

(<https://www.headway.org.uk/media/4091/lack-of-insight-after-brain-injury-factsheet.pdf>)

9.3 Sut y gall diffyg dirnadaeth o ganlyniad i anaf caffaeledig i'r ymennydd effeithio ar allu unigolyn i gymryd risg

Mae'n bwysig bod yn sensitif i unrhyw risgiau neu beryglon y gallai'r goroeswr anaf i'r ymennydd eu gosod eu hunain neu eraill ynddynt o ganlyniad i'w diffyg dirnadaeth. Er enghraifft, os nad ydynt yn cydnabod bod ganddynt broblem cof, byddwch yn ymwybodol o faterion fel gadael popty heb oruchwyliaeth neu anghofio cloi drysau cyn gadael y tŷ. Neu os nad ydynt yn cydnabod bod eu sgiliau gyrru wedi'u heffeithio, gwnewch yn siŵr eu bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb gyrru ar ôl anaf i'r ymennydd.

Fodd bynnag, mae peryglon wrth dybio bod diffyg dirnadaeth ar gyfer pob penderfyniad, gan ei bod yn bosibl na chaniateir i berson ag anaf i'r ymennydd ddatblygu cyfrifoldeb am ei weithredoedd. Mae dirnadaeth yn aml yn newid dros amser hefyd; er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl yn dangos llal o ddirnadaeth yn nyddiau cynnar eu hanaf i'r ymennydd, ond yn dod i adennill dirnadaeth yn ddiweddarach.

(<https://www.headway.org.uk/media/4091/lack-of-insight-after-brain-injury-factsheet.pdf>)

9.3 How lack of insight resulting from acquired brain injury may impact on an individual's ability to take risk

It is important to be sensitive to any risks or dangers that the brain injury survivor may place themselves or others in as a result of their lack of insight. For instance, if they do not recognise that they have a memory problem, be mindful of issues such as leaving a cooker unattended or forgetting to lock doors before they leave the house. Or if they do not recognise that their driving skills are affected, make them aware of the legalities of driving after brain injury.

However, there are dangers in assuming a lack of insight for all decisions, as a person with brain injury may not be allowed to develop responsibility for their actions. Insight commonly changes over time as well; for instance, some people may display reduced insight in the early days of their brain injury but come to regain insight later on.

(<https://www.headway.org.uk/media/4091/lack-of-insight-after-brain-injury-factsheet.pdf>)



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Modeli gan
Isgandwrth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

9.4 Yr ystod o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anaf caffaeledig i'r ymennydd

Mae adsefydlu ac ailalluogi yn wasanaethau a ddarperir i gleifion yn dilyn salwch neu drawma fel anaf i'r ymennydd. Nod y gwasanaethau hyn yw helpu unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac asiantaethau eraill i wneud y mwyafr o'r potensial i ddychwelyd i fywyd normal ac adfer ansawdd bywyd da. Mae hyn yn digwydd trwy weithwyr proffesiynol medrus yn cydweithio i ddyfeisio cynlluniau a therapiau person-ganolog priodol yn seiliedig ar asesiad o weithrediad yr ymennydd ar ôl trawma. Oherwydd cymhlethdod yr ymennydd, gallai cynlluniau ganolbwyntio ar broblemau gwybyddol, emosiynol, ymddygiadol a/neu weithredol a gallent gynnwys gwneud addasiadau i ffordd o fyw person neu ei gartref i'w alluogi i weithredu. Nod cynllun adsefydlu neu ailalluogi fyddai caniatáu i unigolyn gyflawni'r lefel uchaf bosibl o weithrediad.

9.4 The range of services, agencies and professionals which provide support for individuals with acquired brain injury

Rehabilitation and reablement are services provided for patients following an illness or trauma such as a brain injury. The aim of these services is to help individuals, their families and carers, and other agencies to maximise the potential to return to normal living and restore a good quality of life.

This happens through skilled professionals working together to devise appropriate person-centred plans and therapies based on an assessment of brain function after a trauma. Due to the complexity of the brain, plans could focus on cognitive, emotional, behavioural and/or functional problems and could include making adaptations to a person's lifestyle or their home to enable them to function. The aim of a rehabilitation or reablement plan would be to allow an individual the highest level of function possible.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Reolir gan
Gymdeithas Cymru
Sponsored by
Welsh Government

9.4 Yr ystod o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anaf caffaeledig i'r ymennydd

Mae adsefydlu anaf i'r ymennydd yn ymwneud â datrys problemau ac addysgu'r claf a'i deulu, gan gyfuno damcaniaeth dysgu ag egwyddorion addasu ymddygiad. Rhaid bod gan yr unigolyn rywfaifnt o allu i ddysgu a chadw gwybodaeth newydd neu allu ymateb i raglen rheoli ymddygiad.

Disgrifir rhai cleifion fel rhai sydd mewn cyflwr llonydd sy'n golygu nad ydynt yn ymwybodol ac yn anymatebol oherwydd difrod aruthrol i hemisfferau cerebraidd yr ymennydd a choesyn yr ymennydd sydd wedi niweidio atgyrchau awtonomig ac echddygol y tu hwnt i'w hatgyweirio. Ar gyfer y cleifion hyn, nid yw ailalluogi yn bosibl.

9.4 The range of services, agencies and professionals which provide support for individuals with acquired brain injury

Brain injury rehabilitation is about problem solving and educating the patient and their family, combining learning theory with behaviour modification principles. The individual must have some ability to learn and retain new information or to be able to respond to a behavioural management programme.

Some patients are described as being in a vegetative state which means they lack awareness and are unresponsive due to overwhelming damage to the cerebral hemispheres of the brain and the brain stem which has harmed autonomic and motor reflexes beyond repair. For these patients, reablement is not possible.

9.4 Yr ystod o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anaf caffaeledig i'r ymennydd

Ar gyfer cleifion sy'n dechrau rhaglen ailalluogi, dylai fod yn broses weithredol rhyngddynt hwy eu hunain, eu teulu neu ofalwyr a therapyddion. Mae ffyrdd o addasu i newid yn hanfodol i'r unigolyn a'r teulu. Bydd hyn yn wahanol i bob person yn dibynnu ar y rhan o'u hymennydd sydd â nam.

Mae gweithgareddau ailalluogi yn cynnwys:

- ffisiotherapi (ar gyfer gweithredoedd corfforol fel symudedd)
- datblygu sgiliau (ar gyfer bywyd bob dydd)
- sgiliau cyfathrebu (llefaru, iaith, darllen ac ysgrifennu)
- datblygu'r cof
- therapïau.

9.4 The range of services, agencies and professionals which provide support for individuals with acquired brain injury

For patients who begin a reablement programme, it should be an active process between themselves, their family or carers and therapists. Ways of adapting to change are essential for both the individual and the family. This will be different for each person depending on the area of their brain that is impaired.

Reablement activities include:

- physiotherapy (for physical functions such as mobility)
- skills development (for daily living)
- communication skills (speech, language, reading and writing)
- memory development
- therapies.



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

www.gofalcymdeithasol.cymru
www.socialcare.wales



Hydref gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

9.4 Yr ystod o wasanaethau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu cymorth i unigolion ag anaf caffaeledig i'r ymennydd

